

Gweithdy Llysgenhadon Uwchradd

Amcanion:

- Dysgu am hawliau plant
- Deall rôl y Comisiynydd
- I ddefnyddio canfyddiadau ein holiadur er mwyn trafod teimladau a chreu mecanweithiau ar gyfer newid/cefnogaeth yn eu hysgolion/lleoliadau

Bydd Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru yn cynnal gweminar ym mis Hydref. Y bwriad yw i chi cynnal y gweithdy yma cyn y gweminar, fel gall y disgyblion rhannu eu syniadau gyda ni yn ystod y digwyddiad ar-lein.

Canlyniadau dysgu	Gweithgaredd	Amser	Nodiadau
Deall rôl y Comisiynydd	<p>Cyflwynwch y wers trwy esbonio bydd y disgyblion yn canolbwyntio ar hawliau plant yn ystod y sesiwn.</p> <p>Esboniwch pwy yw Comisiynydd Plant Cymru: , sy'n gyfrifol am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn eu hawliau dynol.</p> <p>Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru. Ei swydd hi yw amddiffyn hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae gan bawb dan 18 mlwydd oed 42 o hawliau, gallwch weld y rhain ar y poster.</p>	5 munud	<p>Fedrwch chi rannu beth wnaethoch chi yn ystod y gweminar ym mis Hydref</p> <p>Byddwn yn anfon copïau caled o'n posteri a phecyn symbolau i ysgolion sydd wedi cofrestru fel Llysgenhadon. Mae'r posteri a'r pecyn symbolau ar gael i lawr lwytho o'n gwefan. Mae'r prif ganfyddiadau wedi'i atodi ar diwedd y cynllun wers.</p>

<p>Dysgu am CCUHP</p>	<p>Rhowch y cyfarwyddiadau canlynol i'r bobl ifanc:</p> <p>"Ysgrifennwch restr o'r holl bethau sydd angen arnoch chi i dyfu'n hapus, iach ac yn ddiogel. Rhannwch eich atebion gyda gweddill y grŵp.</p> <p>Defnyddiwch gopi o'r poster 'Deall eich hawliau' i wirio os ydy eich rhestr yn cynnwys yr hawliau sydd gan blant"</p>	<p>10 munud</p>	<p>Gallwch weithio fel grŵp mawr i greu rhestr neu gofynnwch am syniadau ar ôl i'r bobl ifanc gweithio'n unigol.</p> <p>Efallai bydd pethau megis 'ffôn symudol' sy'n cael eu rhestru fel rhywbeth sydd angen ar bobl ifanc. Defnyddiwch y poster 'Deall eich hawliau' er mwyn trafod os ydyn nhw'n bethau sydd ei 'angen' neu ei 'eisiau' ar bobl ifanc.</p> <p>Os ydy eich disgyblion yn gyfarwydd â hawliau plant efallai hoffwch redeg y gweithgaredd fel dadl am bethau sydd 'angen' VS pethau sydd 'eisiau' a pham mae hawliau plant yn angenrheidiol.</p>
<p>Bydd pobl ifanc yn deall y wybodaeth o'r holiadur Coronafeirws a fi.</p>	<p>Esboniwch gwnaeth dros 23,000 o bobl ifanc ymateb i holiadur 'Coronafeirws a fi' Sally. Pwrpas yr holiadur oedd i glywed am brofiadau pobl ifanc o'r cyfnod clo (lockdown).</p> <p>Chwaraewch y fideo yma, sy'n animeiddiad o brif ganfyddiadau'r holiadur.</p>	<p>5 munud</p>	<p>Mae hyn yn cysylltu ag Erthygl 12 — yr hawl i rywun wrando arnat ac i gael dy gymryd o ddifri — efallai hoffwch chi dynnu sylw at yr hawl trwy ei arddangos o flaen y dosbarth gan ddefnyddio ein pecyn symbolau.</p> <p>Roedd yr holiadur 'Coronafeirws a Fi' yn Dasg ar gyfer ein hysgolion Llysgenhadon yn ystod tymor yr haf 2020.</p> <p>Cymerodd dros 23,000 o blant a phobl ifanc rhan yn yr holiadur.</p> <p>Ar gyfer mwy o wybodaeth, gallech chi ddarllen crynodeb o'r adroddiad yma.</p>

<p>Bydd gan bobl ifanc y cyfle i archwilio eu meddyliau a theimladau.</p> <p>Bydd gan bobl ifanc y cyfle i fynegi eu barn.</p>	<p>Rhannwch y dosbarth mewn i grwpiau bach a rhowch bob grŵp un o'r canfyddiad allweddol. Gofynnwch i bob grŵp trafod y cwestiynau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut ydy hyn yn effeithio ar hawliau plant? • Ydy hyn yn wir o hyd? • Sut mae pethau wedi newid? <p>Gofynnwch i bob grŵp rhannu eu syniadau.</p>	<p>15 munud</p>	<p>Efallai hoffwch ddewis y canfyddiadau sy'n fwyaf perthnasol i'r grŵp. Mae'r canfyddiadau wedi'u hatodi ar waelod y ddogfen hon.</p>
<p>Gall disgyblion ystyried beth ddylai cael ei flaenoriaethu ar gyfer pobl ifanc.</p> <p>Gall disgyblion feddwl am bwyntiau trafod ar gyfer y gweminar gyda Sally.</p>	<p>Y gweithgaredd olaf yw hwyluso trafodaeth gyda'r disgyblion am un peth positif sydd wedi dod o'r clo mawr a dwy peth sydd angen wella ar gyfer pobl ifanc.</p> <p>Gwnewch yn siwr i ddweud diolch i'r bobl ifanc am gymryd rhan ac eu hatgoffa am y gweminar a'r cyfle i rannu eu barn gyda Sally.</p>	<p>15 munud</p>	<p>Gall hyn fod yn waith unigol cyn rhannu syniadau gyda'r dosbarth.</p> <p>Os nad ydych chi'n gallu ymuno â'r gweminar ym mis Hydref, croeso i chi rhannu eich adborth a syniadau trwy Twitter (@childcomwales) neu ebost post@complantcymru.org.uk</p>

<p>Adolygu'r sesiwn.</p>	<p>Cau: Adolygu'r sesiwn gyda'r cwestiynau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Pwy yw Comisiynydd Plant Cymru?• Gall unrhyw un enwi hawl sydd gan bobl ifanc?• Beth yw'r gwahaniaeth rhwng rhywbeth sydd ei 'angen' a rhywbeth sydd ei 'eisiau'?• Pam ydy e'n bwysig i oedolion gwrando i bobl ifanc?	<p>5 munud</p>	<p>Adolygwch y sesiwn os oes amser, os na, defnyddiwch y cwestiynau ar gyfer eich gwern nesaf ar hawliau plant.</p>
--------------------------	---	--------------------	---

Prif Ganfyddiadau:

1. Teimlodd pobl ifanc yn ddiogel ac yn hapus rhan fwyaf o'r amser.
2. Soniodd pobl ifanc oed 12-18 am fwy o deimladau negyddol na phlant iau.
3. Roedd gan bobl ifanc mwy o amser i ymlacio a chwarae.
4. Roedd gweld eisiau ffrindiau a theulu yn cael yr effaith mwyaf ar sut roedd pobl ifanc yn teimlo. Roedd ysgolion/colegau yn cau yn cael effaith mawr hefyd.
5. Roedd rhai yn mwynhau dysgu gartref, tra roedd eraill yn gweld eisiau'r cyfle i weithio gyda ffrindiau a chael help gan athro/athrawes.
6. Roedd dros 50% yn poeni am gwympto tu ôl gyda'u haddysg a sut bydd hyn yn effeithio ar eu graddau.
7. Dim ond 39% o bobl ifanc oedd yn teimlo'n ddigon hyderus i ofyn am help gan gwnsler ysgol.
8. Dim ond 17% o bobl ifanc oedd yn teimlo'n hapus am eu harholiadau yn cael eu canslo.